CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424110)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 10FED EBRILL, 2019** am **5.00 PM.**

AGENDA **Tudalennau**

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2019 yn rhai cywir.

5 - 16

LLYWODRAETHU AGORED

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol Dull Gweithredu 2 Cyfarfod Cyngor y Llywodraeth Agored, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu

Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet.

5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

1. **Cwestiwn a dderbyniwyd gan Ms L Chinnock-Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins:**

   "A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am faterion y Gymraeg ddatganiad ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn helpu plant yng ngogledd Pontypridd i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn eu cymuned?"

2. **Cwestiwn gan Ms S Herniman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

   "Os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynlluniau i ddiwygio addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhontypridd, allwch chi gadarnhau p'un a fydd y ddarpariaeth feithrin ar y safle newydd yn Heol y Celyn yn ddarpariaeth llawn amser. Os felly, a yw hyn wedi'i ddiogelu yn hirdymor?"

3. **Cwestiwn gan Mrs C.M Chinnock i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber:**

   "Oes modd i'r Aelod o'r Cabinet Maureen Webber, egluro a fu gwrthwynebiad i'r cynigion presennol ar gyfer safle Heol y Celyn gan drigolion sy'n poeni am y cynnydd yn nifer y cerbydau a fydd yn teithio i lawr y stryd gul, sef Holly Street, lle mae'r ysgol, ac o amgylch ardal Rhydfelen?"

6. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

A. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

   "Sut mae'r Cyngor yn ymateb i achosion o wastraff sy wedi'i adael yn anghyfreithlon ar draws y Fwrdeistref Sirol?"

B. **FCwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"A oes modd i'r Arweinydd amlinellu'r camau nesaf ar gyfer cynllun deuoli'r A4119 rhwng Ynysmaerdy a Choed-elái?"

C. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.Grehan i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan:

"Oes modd i'r Aelod o'r Cabinet priodol ddweud wrthyf am yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud i gynyddu'r lleoedd parcio yn Nhonyrefail?"

D. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hughes i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan:

"Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i wella'r cyfleoedd Teithio Llesol ar draws y Fwrdeistref Sirol?"

E. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet amlinellu sut mae'r Cyngor yn parhau i wella ardaloedd chwarae ledled y Fwrdeistref Sirol?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR - ER GWYBODAETH I AELODAU

7. PENDERFYNIADAU BRYS O DAN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

17 - 20

8. RHYBUDD O GYNNIG

A. Trafod y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Y Cynghorwyr P. Jarman, G. Davies, J. Williams, A. Cox, K. Morgan, H. Fychan, D. Grehan, E. Stephens, L. Jones, J. Davies, J. Cullwick, M. Weaver, S. Rees Owen E. Webster, A. Chapman, S.M. Evans ac D. Macey.

Bod strwythur Pwyllgorau'r Cyngor yn cael ei newid yn y dyfodol er mwyn creu darpariaeth ar gyfer Pwyllgor Deisebau, a bod darpariaeth hefyd i gynyddu nifer y cwestiynau gan yr Aelodau ym mhob Cyfarfod Cyngor Llawn o bump i wyth.

Os caiff hyn ei gytuno, bydd gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chyfansoddiad gyfarfod ar frys i ystyried argymell y newidiadau hyn i Gyfansoddiad y Cyngor yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2019.

***

B Trafod y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Y Cynghorwyr L.M. Adams, R. Yeo, D.R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G Hughes, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M.A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R.K. Turner, M. Webber, D.H. Williams, T. Williams a C.J. Willis:-

Mae'r Cyngor yn awyddus i fynegi ei bryder ynglŷn â'r effaith ymarferol y mae'r newidiadau i'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghwm Taf yn ei chael ar drigolion Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Bwrdd Iechyd Lleol i adolygu'r trefniadau newydd yng Nghwm Taf er mwyn ystyried yr anawsterau sydd ynghlwm â'r drefn yma ar gyfer ein trigolion.

Yn rhan o'r adolygiad yma, gofynnwn i'r Bwrdd Iechyd Cyhoeddus ystyried y datblygiad sylweddol o ran tai sydd eisoes wedi digwydd ers i'r penderfyniad yma gael ei wneud yn 2013. Yn ogystal â hynny, dylai'r adolygiad ystyried cynigion am godi tai yn y dyfodol, yn arbennig yn ardal ddeheuol y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â'r Gogledd ac ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y datblygiadau yma'n rhoi rhagor o bwysau ar y drefn newydd yma ac, o ganlyniad i hynny, yn arwain at ragor o broblemau ymarferol i drigolion Rhondda Cynon Taf sydd angen cymorth gan wasanaethau mamolaeth a phediatrig, yn arbennig mewn argyfwng.

9. MATERION BRYS

To consider any items which the Mayor, by reason of special circumstances, is of the opinion should be considered as a matter of urgency.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor